| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol/ Pwyllgor Archwilio Partneriaethau |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 25 Ebrill/ 3 Mai 2018 |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | Bobby Feeley, Aelod Arweiniol ar gyfer Llesiant ac Annibyniaeth / Phil Gilroy, Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Cymunedol |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Liana Duffy, Swyddog Comisiynu Atal Digartrefedd |
| **Teitl:** | **Diweddariad ar y Cynllun Gweithredu Atal Digartrefedd** |

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau ar gynnydd y Cynllun Gweithredu Atal Digartrefedd, yn cynnwys y camau sydd angen gan Strategaeth Ddigartrefedd Sir Ddinbych 2017-21, Cynllun (Comisiynu) Blynyddol Cefnogi Pobl / Atal Digartrefedd Sir Ddinbych, ac argymhellion adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru: 'Sut mae Llywodraeth Leol yn Rheoli Galw – Digartrefedd' (Mis Ionawr 2018).

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

I roi gwybod am y cynnydd hyd yma wrth gyflwyno'r Cynllun Gweithredu Atal Digartrefedd (gan gynnwys y sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas â dyfodol cyllid Cefnogi Pobl). Cytunwyd yn y Pwyllgor Archwilio ym mis Tachwedd 2017 i gyflwyno adroddiad cynnydd ar weithredu'r Strategaeth a'r Cynllun (y Cynllun Gweithredu) i'w gyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Mai 2018.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

3.1 I'r Pwyllgor Archwilio gefnogi darpariaeth y Cynllun Gweithredu Atal Digartrefedd i sicrhau fod pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy'n diwallu eu hanghenion;

3.2 I'r Pwyllgor Archwilio fod yn sicr fod cynlluniau'n cael eu datblygu i liniaru unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'r bwriad posibl yn y dyfodol i ddiddymu'r sicrwydd a roddir i gyllid Cefnogi Pobl ar hyn o bryd ar gyfer gwaith atal digartrefedd.

**4. Manylion yr Adroddiad**

4.1 Mae Tîm Atal Digartrefedd Sir Ddinbych yn parhau i ddatblygu a gweithio yn ôl cynllun gweithredu eang, yn seiliedig ar Strategaeth Digartrefedd Sir Ddinbych 2017-21 (y Strategaeth) a Chynllun Comisiynu Blynyddol Cefnogi Pobl / Atal Digartrefedd 2018/19 (y Cynllun), yn ogystal ag argymhellion adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru: 'Sut mae Llywodraeth Leol yn Rheoli Galw – Digartrefedd' (Mis Ionawr 2018).

4.2 Mae'r Strategaeth, sy'n cynnig cyfeiriad cyffredinol, wedi cael ei ddatblygu, a bydd yn cael ei ddarparu, yn unol â'r gofyniad statudol a osodwyd arnom fel Awdurdod Lleol gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Mae'n rhaid i'r Strategaeth gael ei chyflawni mewn partneriaeth ar draws adrannau'r cyngor a chyda ein partneriaid allanol, os ydym am

lwyddo i wireddu gweledigaeth y Strategaeth: I roi stop ar ddigartrefedd yn Sir Ddinbych. Mae hyn yn bwysicach o ystyried y pwysau sydd ar y gyllideb Atal Digartrefedd.

4.3. Mae'r tabl yn Atodiad 1 yn cynnig diweddariad trosolwg ar gamau allweddol ar gyfer 2017/18 a 2018/19, wedi eu grwpio o dan feysydd blaenoriaeth yn seiliedig ar gasgliad o flaenoriaethau a amlinellir yn y Strategaeth, y Cynllun, ac wyth argymhelliad adroddiad SAC, fel a ganlyn:

- 4.3.1. Datblygu Gwasanaeth Atal Digartrefedd Holistaidd, sydd wedi ei hysbysu'n seicolegol
- 4.3.2. Atal Digartrefedd yn Erbyn y Prif Achosion, gan gynnwys trechu tlodi
- 4.3.3. Lleihau'r defnydd o Lety Dros Dro, a cheisio dod a diwedd i'r defnydd o Lety Gwely a Brecwast.
- 4.3.4. Gwella Mynediad at Lety
- 4.3.5. Datblygu ymagwedd integredig tuag at gefnogi pobl gydag anghenion lluosog / cymhleth
- 4.3.6. Atal Digartrefedd Pobl Ifanc, gan gynnwys mewnoli dull 'Llwybr Cadarnhaol'
- 4.3.7. Cynnwys Dinasyddion
- 4.3.8. Cynaliadwyedd cefnogaeth yn ymwneud â thai, gan gynnwys cynyddu darpariaeth bresennol

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r Cynllun Gweithredu yn cyfrannu at gefnogi Cynllun Corfforaethol Sir Ddinbych 2017-22 yn y meysydd canlynol:

- Mae pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy'n diwallu eu hanghenion
- Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i gynyddu annibyniaeth a chadernid
- Mae pobl iau eisiau byw a gweithio yma, ac mae ganddynt y sgiliau i wneud hynny

## 6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Bydd gan gamau gweithredu gofynnol parhaus ac yn y dyfodol oblygiadau sylweddol ar gyfer y gyllideb ddigartrefedd statudol a'r Grant Cefnogi Pobl - y mae'r olaf o'r rhain wedi'i glustnodi gan Lywodraeth Cymru, ac y mae'r cyntaf yn dod o'r gyllideb Gwasanaethau Cymorth Cymunedol ganolog.

6.2 Fel gydag unrhyw strategaeth/cynllun gweithredu, bydd angen buddsoddiad adnoddau sylweddol. Bydd hyn yn cael ei reoli o fewn y cyllidebau presennol sydd wedi'u dyrannu; ond bydd gofyn hefyd i'r Tîm Atal Digartrefedd weithio a buddsoddi ar y cyd â phartneriaid mewnol ac allanol. Bydd unrhyw gynlluniau o'r fath yn cael eu datblygu a'u rheoli trwy'r sianelau perthnasol, gan gynnwys y Grŵp Cynllunio Atal Digartrefedd. Mae hefyd yn hanfodol i ni gael cefnogaeth ar bob lefel, gan gynnwys yn gorfforaethol.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Mae Asesiadau Effaith Lles eisoes wedi cael eu cwblhau a'u rhannu gyda'r Pwyllgorau Archwilio a'r Cabinet yn 2017 yn ystod datblygiad y Strategaeth a'r Cynllun.

**8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

8.1. Mae'r Strategaeth wedi'i seilio ar ganfyddiadau Adolygiad Digartrefedd 2016, a lywiwyd gan ymgynghoriad sylweddol. Yna, datblygwyd y strategaeth ei hun yn bennaf gan y Grŵp Llywio Atal Digartrefedd amlasiantaeth, gyda mewnbwn ychwanegol gan y Grŵp Cynllunio Atal Digartrefedd (sef Cefnogi Pobl yn flaenorol). Mae hefyd wedi bod trwy gyfnod ymgynghori ffurfiol (13/07/2017 - 10/08/2017), pan geisiwyd adborth dinasyddion, darparwyr gwasanaethau a'n partneriaid eraill. Ymgynghorwyd ar y Cynllun hefyd yn y Diwrnod Atal Digartrefedd Blynyddol ym mis Awst, lle'r oedd nifer o ddinasyddion a budd-ddeiliaid eraill yn bresennol. Yn dilyn y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau ym mis Tachwedd 2017, cymeradwywyd y Strategaeth gan y Cabinet ym mis Rhagfyr 2017.

8.2 Mae'r blaenoriaethau a'r camau gweithredu a nodir yn y Cynllun Blynyddol wedi'u llywio gan ystod o wybodaeth y buom yn ei chasglu drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys barn dinasyddion, gyda'n Swyddog Cynnwys Dinasyddion yn cydweithio'n agos ar brosiectau i sicrhau bod lleisiau pobl yn cael eu clywed. Ar bob cam yn natblygiad y Cynllun, ymgynghorwyd â'r Grŵp Cynllunio Atal Digartrefedd, a chafwyd eu cymeradwyaeth. Bu'r Cynllun hefyd trwy gyfnod ymgynghori ffurfiol (27/06/2017 - 22/08/2017), pan gafodd ei drafod mewn nifer o fforymau cynllunio ac eraill. Ymgynghorwyd ar y Cynllun hefyd yn y Diwrnod Atal Digartrefedd Blynyddol ym mis Awst, lle'r oedd nifer o ddinasyddion a budd-ddeiliaid eraill yn bresennol. Yn dilyn y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau ym mis Tachwedd 2017, cymeradwywyd y Strategaeth gan y Cabinet ym mis Rhagfyr 2017.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Bydd y goblygiadau o ran cost yn dod yn fwy eglur wrth i'r ddau gynllun ddatblygu, a dylent gael eu cadw o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Er y credir bod lefelau cyllido'r grant Cefnogi Pobl yn sefydlog ar y cyfan yn y tymor byr, gallai newidiadau i bolisi neu ddosbarthiad gael effaith yn y dyfodol. Dull cyffredinol y cyngor yw trosglwyddo gostyngiadau mewn arian grant ymlaen i'r maes gwasanaeth a ddarperir.

**10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1. Er gwaethaf cyhoeddiadau cyllideb diweddar gan Lywodraeth Cymru yn nodi na fydd y Grant Cefnogi Pobl yn cael ei leihau ar lefel genedlaethol, gallai Llywodraeth Cymru barhau o hyd gyda fformiwla ailddosbarthu'r Grant CP. Byddai hyn yn golygu gostyngiad yn y grant i Sir Ddinbych yn y dyfodol.

10.2. Rhaid i ni hefyd aros am ganlyniad yr uwch grant arfaethedig, a chyfrannu at ei ddatblygiad lle bo modd, i sicrhau fod gwasanaethau atal digartrefedd rheng flaen yn cael eu diogelu. Mae canllawiau gan Lywodraeth Cymru yn amhendant ar hyn o bryd.

Mae Sir Ddinbych wrthi'n cynllunio'n barhaus i liniaru unrhyw ostyngiad yn y grant yn y dyfodol, er mwyn sicrhau bod y cynllun yn parhau'n ariannol hyfyw ac o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Amherthnasol